**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

16 Mai 2023

Annwyl Weinidog

Y fframwaith cyffredin dros dro mewn perthynas â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y fframwaith cyffredin dros dro mewn perthynas â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ei gyfarfod ar 29 Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch ynghylch nifer o faterion.

Ym mis Ionawr 2021, ymrwymodd llywodraethau'r DU i gynllun masnachu allyriadau ar gyfer y DU gyfan am gyfnod o ddeng mlynedd, gyda darpariaethau i'w adolygu ar adegau penodedig. Mae'r fframwaith yn llywodraethu rheolaeth gydweithredol y cynllun a gweinyddiaeth ei elfennau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol.

Mae'r Fframwaith yn cydnabod bod sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn golygu bod cymhwysedd wedi'i gadw a chymhwysedd datganoledig yn cael ei ddefnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd polisi yn dod o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Fodd bynnag, mae angen rhywfaint o ddarpariaeth drwy Ddeddf Cyllid 2020. Mae'r ddogfen fframwaith yn nodi bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi anghytuno ar ba faterion sydd wedi'u cadw'n ôl a pha rai sydd wedi'u datganoli yn ystod ei thaith drwy Senedd y DU yn 2020.

- Sut y gallai'r anghydfod cymhwysedd parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU effeithio ar ddeddfwriaeth a phenderfyniadau polisi yn y dyfodol o fewn fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?
- Allwch chi ymhelaethu ar y darpariaethau penodol yn y fframwaith sy'n nodi sut y caiff anghytundebau ar gymhwysedd eu rheoli, a sut yr ymgynghorir â'r deddfwrfeydd ar anghydfodau cymhwysedd?

Mae’r fframwaith yn manylu ar broses ar gyfer datrys anghytundebau ac anghydfodau rhwng y pedair llywodraeth, gydag anghydfodau’n cael eu huwchgyfeirio i lefel Weinidogol os oes angen. Fel dewis olaf, gellir uwchgyfeirio anghydfodau Gweinidogol at strwythurau rhynglywodraethol.

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro a gwerthuso effeithiolrwydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU o ran cyflawni ei hamcanion, yn enwedig o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr?
- A oes unrhyw ddarpariaethau yn fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i fynd i’r afael â gwahaniaethau rhanbarthol posibl yng ngweithrediad a chanlyniadau’r cynllun ar draws pedair gwlad y DU?

Ym mis Ionawr 2022, cwblhaodd Llywodraeth y DU a’r llywodraethau datganoledig yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, gan ddisodli Cyd-bwyllgor y Gweinidogion â dulliau newydd o weithio a datrys anghydfodau. Dylai'r fframwaith fod yn gydnaws â chanlyniadau'r adolygiad.

- Sut mae fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cyd-fynd â'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, a sut y caiff canlyniadau'r adolygiad eu hintegreiddio i brosesau llywodraethu a datrys anghydfodau'r fframwaith?

Mae’r fframwaith yn cyflwyno ffyrdd newydd o weithio rhwng swyddogion a Gweinidogion o bob un o’r pedair llywodraeth. Mae strwythurau llywodraethu amrywiol, gan gynnwys y “Gronfa Adnoddau,” yn rheoli’r fframwaith yn ddyddiol, gyda gweithgorau, bwrdd uwch-swyddogion, a’r Grŵp Rhyngweinidogol Net Sero, Ynni a Newid Hinsawdd yn ymdrin â thrafodaethau polisi a gwneud penderfyniadau.

- Allwch chi roi mwy o eglurder ynghylch rôl y 'gronfa adnoddau' o swyddogion ac egluro sut mae'n berthnasol i grwpiau eraill a sefydlwyd gan y fframwaith hwn?
- Sut mae'r fframwaith yn sicrhau bod y 'gronfa adnoddau' o swyddogion yn cefnogi'r gwaith o gydgysylltu a gweithredu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn effeithiol ar draws pedair llywodraeth y DU?
- Pa gyfrifoldebau penodol a neilltuir i’r bwrdd uwch-swyddogion, a sut y bydd eu proses benderfynu yn rhyngweithio â strwythurau llywodraethu eraill?
- Allwch chi ymhelaethu ar yr egwyddorion a amlinellir yn y fframwaith ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig o ran y prosesau clirio mewnol a phrosesau cyflym ar gyfer y pedair llywodraeth?
- Pa fesurau sydd ar waith o fewn fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar draws pedair llywodraeth y DU?

Mae’r fframwaith yn amlinellu rolau rheoleiddwyr amgylcheddol y DU, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, y llysoedd, a’r Pwyllgor Newid Hinsawdd wrth weithredu’r cynllun a’r fframwaith.

- Allwch chi ddarparu copi o’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a rheoleiddwyr amgylcheddol datganoledig, a barn Llywodraeth Cymru ar sut y bydd ei threfniadau’n effeithio ar weithrediad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?
- Sut mae fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn mynd i’r afael ag anghysondebau posibl wrth weithredu a gorfodi’r cynllun ar draws pedair gwlad y DU, yn enwedig o ran rheoleiddwyr amgylcheddol a chydymffurfiaeth?
- Pa rôl fydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn ei chwarae yn y gwaith o weithredu a goruchwylio fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a sut y caiff ei argymhellion eu hintegreiddio mewn penderfyniadau polisi?

Nid oes gan y fframwaith ddarpariaethau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ond mae’n manylu ar y gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi a’r potensial ar gyfer mewnbwn rhanddeiliaid i osgoi anghydfod.

- Pa strategaethau sydd ar waith i sicrhau ymgysylltiad ystyrlon a chynhwysol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?
- Allwch chi roi rhagor o wybodaeth am y broses mewnbwn rhanddeiliaid yn adran osgoi anghydfod y fframwaith?

Mae'r fframwaith yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer rhwymedigaethau rhyngwladol presennol, megis Protocol Kyoto, Cytundeb Paris, a CORSIA. Ar gyfer rhwymedigaethau yn y dyfodol, bydd y llywodraethau'n defnyddio'r fframweithiau i asesu effaith masnach ryngwladol, datblygu ffurfiad polisi rhyngwladol y DU, a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol. Bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli 2012 a’r Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol yn llywio'r trefniadau hyn.

- Pa strategaethau sydd ar waith i sicrhau bod fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cefnogi’r gwaith o lunio polisi rhyngwladol y DU a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, megis Protocol Kyoto, Cytundeb Paris, a CORSIA?
- Sut y bydd pedair llywodraeth y DU yn cydgysylltu eu hymdrechion i asesu effaith masnach ryngwladol ar reoli gwahaniaethau polisi’r DU ac ystyried unrhyw oblygiadau o fewn fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?
- Ni chafodd y Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol y cyfeiriwyd ato yn y fframwaith ei gwblhau fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a drafodwyd uchod. Yn absenoldeb y concordat hwn, a ydych o’r farn bod cydweithredu rhynglywodraethol ar gysylltiadau rhyngwladol yn parhau i gael ei lywodraethu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth 2001 ar ddatganoli?
- Yn eich barn chi, a yw’r Fframwaith yn cynnig mwy o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru lywio a chymryd rhan yng ngwaith polisi tramor a chysylltiadau rhyngwladol y DU?

Mae’r fframwaith yn trafod system ddeuol ar gyfer prisio carbon Protocol Gogledd Iwerddon a’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sy’n cadarnhau y bydd gan y ddwy ochr eu systemau prisio

carbon effeithiol eu hunain. Bydd y DU a’r UE yn cydweithredu ar brisio carbon, ac yn ystyried cysylltu eu systemau. Mae'r fframwaith yn cydnabod y gallai’r Cynllun Masnachu Allyriadau gael ei drafod mewn fforymau sy’n berthnasol i’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac y gallai gweithredu cytundeb cysylltu ddod o fewn cymhwysedd datganoledig.

- Allwch chi roi rhagor o wybodaeth am oblygiadau posibl cytundeb cysylltu rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a Chynllun Masnachu Allyriadau’r UE, yn enwedig mewn meysydd cymhwysedd datganoledig?
- A yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cysylltu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a'r UE?
- Sut mae'r fframwaith yn mynd i'r afael â heriau posibl sy'n deillio o ddod â sylweddau sy'n teneuo'r osôn i ben yn raddol a rheoli allyriadau diwydiannol ac aer o fewn cyd-destun chwarae teg rhwng y DU a'r UE?
- Yng nghyd-destun y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU i fonitro gwahaniaethau ac aliniad i/o safonau’r UE, gan gynnwys er mwyn osgoi mesurau dial posibl?

Mae Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn cyfeirio at ddeddfwriaeth yr UE a droswyd yn gyfraith ddomestig ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit. Gall y DU a llywodraethau datganoledig addasu Cyfraith yr UE a Ddargedwir o fewn eu cymhwysedd, gan arwain o bosibl at wahaniaethau rhwng rheolau’r DU a’r UE, a rheolau rhwng gwledydd y DU. Nod y fframweithiau yw rheoli gwahaniaethau o'r fath, y cyfeirir atynt fel 'dargyfeiriad'. Yn wahanol i fframweithiau eraill, nid yw fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cyfeirio at Gyfraith yr UE a Ddargedwir, ac nid yw ychwaith yn cynnwys rhestr o Gyfreithiau’r UE a Ddargedwir o fewn cwmpas.

- Allwch chi egluro’r rhyngweithiad rhwng fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a nodi Cyfraith yr UE a Ddargedwir o fewn cymhwysedd sy’n sail i’r fframwaith?
- Allech chi ddarparu asesiad Llywodraeth Cymru o effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ar y fframwaith?

Mae’r fframwaith yn amlinellu’r broses monitro ac adolygu, gydag adolygiad cynhwysfawr o fewn tri mis i gyfnod adolygu cytunedig Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn 2023 ac adolygiadau ad-hoc yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'r partïon ymgynghori nac ymgysylltiad y ddeddfwrfa yn ystod y broses adolygu.

Yn ei adroddiad ar y fframwaith ansawdd aer a chemegau a phlaladdwyr, argymhellodd y Pwyllgor hwn y dylai Llywodraeth Cymru egluro pryd a sut y bydd rhanddeiliaid yn bwydo i mewn i fframweithiau fel mater o drefn a sicrhau nad yw fframweithiau’n cyfyngu ar rôl rhanddeiliaid wrth ddatblygu’r gyfraith a pholisi.

Mae’r Pwyllgor hwn hefyd wedi galw o’r blaen ar Lywodraeth Cymru i lunio adroddiadau blynyddol ar weithrediad y fframweithiau ac i geisio cytundeb rhynglywodraethol ar rôl wedi’i diffinio’n glir i

seneddau’r DU wrth adolygu fframweithiau, safbwynt a gefnogir gan Bwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd a Phwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ’r Arglwyddi.

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgorffori argymhellion y Pwyllgor ynghylch rôl deddfwrfeydd a rhanddeiliaid yn y gwaith o adolygu a diwygio fframweithiau?
- Allwch chi roi rhagor o wybodaeth am sut y caiff fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ei adolygu a’i ddiwygio, yn enwedig o ran cynnwys rhanddeiliaid a deddfwrfeydd?
- Sut mae’r fframwaith yn mynd i’r afael â galwad y Pwyllgor am lunio adroddiadau blynyddol ar weithrediad y fframweithiau?
- Beth yw'r meini prawf ar gyfer sbarduno adolygiadau ad-hoc o fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb erbyn dydd Mawrth 27 Mehefin 2023.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.